

Cofion a Chyfarchion

- Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf heddiw â Glyn Davies (Saron) a'r teulu oll yn dilyn marwolaeth ei chwaer ddiwedd yr wythnos hon. Nid dyma'r brofedigaeth gyntaf iddo gyfarfod yn ystod y flwyddyn, a gweddiwn y bydd ef a'r teulu yn adnabod eto heddwch a thangnefedd cwmni'r Arglwydd Iesu.
- Anfonwn ein cofion at Morfudd Williams (Henllan) ac Eirian Davies (Cefn Meiriadog) sydd yn Ysbyty Glan Clwyd, a Bob Davies (Llanfair) sy'n parhau yn Ysbyty Llandudno. Treuliodd Owen, mab bach Ifor a Mari Lloyd (Llanfair) noson yn Ysbyty Glan Clwyd yn ystod yr wythnos hefyd. Da clywed ei fod yn well erbyn hyn. Cyflwynwn y cleifion hyn, fel eraill yn yr ofalaeth sydd heb fod yn mwynhau'r iechyd gorau, i ofal yr Arglwydd.
- Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Berwyn ac Ann Evans (Llansannan) sydd newydd ddathlu eu Priodas Aur y penwythnos diwethaf.

Anrheg gwerth chweil!

Diolch yn fawr iawn i bawb a gyfrannodd tuag at lwyddiant noson lansio llyfr 'Capel Cefn Meiriadog Ddoe a Heddiw' gan Meurig Owen. Mae'n lyfr diddorol dros ben ac yn werth ei brynu! Os dymunwch gael copi neu ei roi yn anrheg i rywun arall, mae copïau o'r llyfr ar gael ymhob un o eglwysi'r Ofalaeth, neu mae croeso i chi gysylltu â Haf Evans, Tan y Graig (01745 582215). £10 yw pris y llyfr.

I ddod

- **PLYGAIN** dan arweiniad Aneurin yng Nghapel Llanefydd noswyl y Nadolig, nos Fawrth, Rhagfyr 24ain am 7.00.
- **OEDFA BORE NADOLIG I'R FRO** yng Nghapel Cefn Berain am 9.30.
- **TAITH GERDDED I'R FRO** yn ardal Peniel bore Gwener, Rhagfyr 27ain. Mwy o fanylion i ddilyn.
- **SWPER NADOLIG I'R GRWPIAU ADNABOD HEN A NEWYDD** yn Festri Llansannan, nos Wener, Rhagfyr 27ain am 7.30. Mwy o fanylion i ddilyn.
- **OEDFA I'R FRO** bore Sul, Rhagfyr 29ain am 10.00 yn Soar, Llanfair Talhaiarn.
- **ADUNIAD SOULED OUT (15 OED+)** yng Ngholeg y Bala, Ionawr 31ain–Chwefror 2il.
- **PENWYTHNOS PLANT GOFALAETH BRO ALED (8–12 OED)** yng Ngholeg y Bala, Chwefror 7fed–9fed.
- **PENWYTHNOS IEUENCTID** yng Ngholeg y Bala, Chwefror 28ain–Mawrth 2il.

Darlleniad Wythnos Nesaf

Eseia 9:1-7 (BCND tud.627 / BCN: tud.572)

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 15^{fed} Rhagfyr 2013

Darlleniad y Dydd

Luc 2: 8-20

(BCND tud.62 / BCN: tud.57)

www.eglwysibroaled.com / www.thaglendorcas.com / www.llanw.org / www.dawncymru.org

Bore da a chroeso i wasanaethau arbennig y dydd heddiw. Cofiwch am yr Oedfa Arbennig heno pryd y byddwn yn addoli'r Arglwydd yn y gwasanaeth carolau ac yn cofio amdano'n dod i'r byd yn faban bach. Rhyfeddod mwya'r byd a'r nef ydi hyn!

Mae'r disgrifiad a gafodd y bugeiliaid o'r hyn a ddigwyddodd gan yr angylion yn ddiddorol. "Chwi a gewch y dyn bach wedi ei rwymo mewn cadachau a'i ddodi yn y preseb." (Luc 2: 12)

O feddwl bod y digwyddiad mor fawr, mae'n rhyfedd ein bod yn cael y manylion lleiaf am yr hyn yr oedd y baban Iesu yn ei wisgo!

Un o'r cwestiynau a gafodd fy mrawd, Gwilym, wrth iddo sôn am Nelson Mandela ar y radio yr wythnos hon oedd y cwestiwn a gafodd gan Gary Owen am arwyddocâd gwisgo'r crys rygbi yn ystod Cwpan y Byd 1995. Mae'n ddelwedd eiconig bellach – Mandela, yr Arlywydd du cyntaf, yn gwisgo crys y Springbok – y tîm a oedd yn ymgorfforiad o'r gormes hiliol a fodolai yn Ne Affrica dan y deddfau apartheid creulon. Ond dyma fo, Mandela, yn gwisgo'r crys gwyrdd, ac yn uniaethu hefo'r gelyn. Does dim dwywaith yn ôl Francois Pienaar, capten y tîm buddugol, na ddaru gweithred Mandela ddwyn cymod a heddwch yn nes i'r wlad oherwydd ei fod wedi uniaethu hefo'r ddwy ochr. Wrth wisgo'r crys gyda balchder, roedd yn tynnu i lawr y pethau a fu'n gwahanu'r pobl dduon a'r gwynion.

Mae Iesu wedi gwneud mwy na gwisgo'n dillad. Gwisgodd ein cadachau, do, ym Methlehem, ond fe wnaeth lawer mwy na hynny. Fe wisgodd ein cnawd. Daeth yn ddyn o gig a gwaed. Cymerodd ein natur. Gwisgodd ein cnawd gyda balchder! "Felly does ganddo ddim cywilydd galw'r bobl hynny yn frodyr a chwiorydd." (Hebreaid 2:11) Cofleidiodd ein natur. Dylen ni roi bloedd o orfoledd wrth i ni weld ein Duw yn gwisgo'n crys ni!

Ond daeth Arglwydd yr Arglwyddi i wisgo'n natur ni i bwrpas! Daeth er mwyn gallu marw. Daeth yn gnawd er mwyn iddo allu bod yn iawn dros ein pechodau ni – yn aberth cymod.

Dyma sut y mae'r Beibl yn disgrifio beth sydd wedi digwydd oherwydd bod Duw wedi dod yn ddyn: "Wrth farw ar y groes mae (Iesu) wedi delio gyda'r ffens oedd yn eich cau chi allan, sef holl ofynion y Gyfraith Iddewig a'i rheolau. Gwnaeth hyn er mwyn dod â ni i berthynas iawn â'n gilydd, a chreu un ddynoliaeth newydd allan o'r ddau grŵp o bobl. Mae'r ddau yn dod yn un corff sy'n cael ei gymodi gyda Duw drwy beth wnaeth e ar y groes. Dyna sut daeth â'r casineb rhyngon ni i ben." (Effesiaid 2:15-16) Rhyfeddol!

Aneurin

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **Gwasanaeth Carolau a Phlygain i'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Bydd paned a mins pei yn dilyn yr oedfa. Croeso cynnes i bawb.
- Mawrth • **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
- Iau • **Parti Nadolig Cyfarfod Plant Llanefydd** am 3.15.
- Gwener • **Noson o Grefftau Nadolig**, paned a mins pei yn Festri Llansannan am 7.00 gyda'r elw yn mynd tuag at y Philippines. Croeso i bawb.
- Sul nesaf • Ni fydd **Oedfa i'r Fro** heno, ond cynhelir Oedfa i'r Fro bore Nadolig yng Nghapel Cefn Berain **am 9.30**, ac yng Nghapel Llanfair, bore Sul, Rhagfyr 29ain am 10.00.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Gwener Bydd Parti Nadolig Ysgol Sul/Cymdeithas Cefn Meiriadog am 7.00.
- Sul nesaf Cynhelir Gwasanaeth Nadolig yng Nghefn Meiriadog am 10.30 a bydd paned i ddilyn. Bydd Gwasanaeth Nadolig teuluol yn Llanfair am 11.00, a Pharti Nadolig i ddilyn yn y Neuadd.

Llansannan

- Sul yma Bydd Cyfarfod Gweddi am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Llun "Awn i Fethlem" – Gwasanaeth Carolau'r Gymdeithas yn Eglwys Sant Sannan am 7.30.
- Iau Cinio Nadolig Jangl am 12.00.
- Sul nesaf Cynhelir Gwasanaeth Nadolig Ysgol Sul yr oedolion yn y Granar a bydd ymarfer i'r plant yn y capel am 10.00. Bydd Gwasanaeth Nadolig y plant yn y capel am 2.00 gydag Aneurin yn rhoi anerchiad, a bydd y Parti Nadolig yn dilyn yn y Festri.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd Mr Arawn Glyn yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Gwasanaeth Nadolig (Nantglyn a Thanyfron) yng Nghapel y Waen, Nantglyn am 2.00.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00.
- Sul nesaf Cynhelir Gwasanaeth Nadolig yn Saron am 11.00 a bydd Siôn Corn yn ymweld ar ôl y gwasanaeth. Bydd Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00, a chynhelir Gwasanaeth Nadolig am 2.00 a bydd te wedi ei baratoi i ddilyn y gwasanaeth.

Henllan a Groes

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00.
- Sul nesaf Bydd Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 a chynhelir Gwasanaeth Nadolig yno am 2.00. Bydd Gwasanaeth Nadolig yn Groes am 10.30, a bydd Parti Nadolig i ddilyn yn y Festri.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.
- Sul nesaf Cynhelir Gwasanaeth Nadolig y Plant yn Llanefydd am 10.30 a bydd Parti Nadolig i ddilyn yn y Neuadd. Yna, am 6.30 bydd Gwasanaeth Carolau yng Nghapel Llanefydd. Yn yr un modd, cynhelir Gwasanaeth Nadolig yng Nghefn Berain am 10.30 a bydd Parti Nadolig i ddilyn.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i
Aneurin – 📧 aneurin@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwysi Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau